# MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

## Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 sy'n cynnwys diwygiadau i adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS) 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth o ran Cymru, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd ar fater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. Cafodd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 7 Hydref 2020 Gellir gweld yr Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol yma: https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348212952

## Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr Offeryn Statudol, ar y cyfan, yw cywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r ffaith fod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

4. Mae'r Offeryn Statudol yn gwneud cyfres o ddeddfwriaethau sy'n ymwneud â chaffael, ond mae'r diwygiadau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn ymwneud â nhw yn ddiwygiadau technegol i adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen i'r diwygiadau hyn gael eu gwneud er mewn sicrhau y gall y ddarpariaeth hon o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 barhau i weithredu'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio.

5. Mae'r Offeryn Statudol y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud ag ef wedi cael ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig o dan y weithdrefn gadarnhaol drafft, ac ni ellir gwneud yr Offeryn Statudol oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'i gymeradwyo ganddynt. Byddai'r darpariaethau yn yr Offeryn Statudol, sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ati yn y Memorandwm hwn, yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, sef 31 Rhagfyr 2020 am 11.00 p.m**.**

## Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan yr Offeryn Statudol y ceisir cydsyniad yn ei gylch

6. Adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac i'w ddiwygio gan yr Offeryn Statudol hwn, sy'n cael ei ddiwygio gan reoliad 4 o'r Offeryn Statudol. Mae'n darparu ar gyfer diffinio telerau wrth gyfeirio at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn hytrach na chyfeirio at Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (2014/24/EU). Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn rheoliadau domestig sy'n rhoi effaith i Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus.

7. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod y darpariaethau sy’n cael eu disgrifio uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a gallent fod yn destun Bil Senedd Cymru.

**Pam mae'n briodol i'r Offeryn Statudol wneud y ddarpariaeth hon**

8. Mae’r diwygiad hwn yn gymharol fach, ac mae’n dechnegol ei natur, o gofio ei fod yn darparu ar gyfer telerau penodol sydd i’w diffinio drwy gyfeirio at gyfres o reoliadau domestig sy’n rhoi effaith i Gyfarwyddeb yr UE, yn hytrach na chyfeirio at y Gyfarwyddeb honno. Nid oes gwahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â’r cywiriad. Byddai gwneud dau Offeryn Statudol, y naill yng Nghymru, a’r llall yn Lloegr i gywiro’r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu’r gwaith ac yn creu cymhlethdod diangen ar y llyfr statud. O dan yr amgylchiadau eithriadol sy’n ein hwynebu oherwydd ymadael â’r Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Goblygiadau ariannol**

9. Nid oes goblygiadau ariannol disgwyliedig i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â’r Offeryn Statudol.

**Jane Hutt**
**Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip**